

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r UE Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 18\_Mawrth / Ebrill 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno deunawfed rhifyn Materion Ewropeaidd sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Ar 1 Mawrth, roedd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ym Mrwsel i ddatlu Dydd Gŵyl Dewi. Yn ystod ein hymweliad cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, a hynny yn adeilad Pwyllgor y Rhanbarthau, a chafwyd tystiolaeth gan yr Athro Danuta Hübner, Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop, a'r pedwar Aelod Cymreig o Senedd Ewrop. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Pwyllgor gyfarfod yn ffurfiol ac roedd yn gyfle gwych i drafod materion Ewropeaidd sy'n bwysig i Gymru.

Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd amryw o gyfarfodydd anffurfiol defnyddiol gyda swyddogion er mwyn trafod Strategaeth Ewrop 2020, dyfodol y polisi cydlyniant a'r Adolygiad o Gyllideb yr UE. Ymhlith y rhai a gyfarfu'r Pwyllgor, roedd Aelod o gabinet yr Arlywydd Barroso, Dirprwy Bennaeth Cabinet y Comisiynydd Hahn, cynrychiolwyr o Arlywyddiaeth Sbaen o'r UE, cynrychiolwyr o ranbarth Saxony-Anhalt, a Graham Meadows, cyn-gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol yn y Comisiwn Ewropeaidd.

Er mwyn adeiladu ar yr ymweliad hwn, bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth bellach ac ddyfodol y polisi cydlyniant ym mis Mai gyda'r bwriad o lunio ail adroddiad interim erbyn diwedd mis Mehefin, gan amseru hynny er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ar drafodaethau mewnol yr UE sy'n digwydd yn ystod 2010.

Mae'r rhifyn hwn o Materion Ewropeaidd hefyd yn rhoi manylion am weithgareddau Ewropeaidd pwyllgorau eraill y Cynulliad, yn cynnwys tystiolaeth y mae'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ei chlywed ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae hwn yn fater pwysig iawn yng Nghymru o gofio bod ein cymunedau gwledig yn cael rhyw £200 miliwn y flwyddyn gan yr UE trwy'r polisi hwn a bydd dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn rhan bwysig o'r trafodaethau ym Mrwsel mewn perthynas â Chyllideb yr UE ar ôl 2013.

Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu hefyd wedi bod yn clywed tystiolaeth gan swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ei ymchwiliad i roi Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol rhwng 2007-2013 ar waith yng Nghymru.

Yn olaf, cafodd y Cynulliad y fraint o groesawu amryw o westeion o bwys yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys dirprwyaeth o wleidyddion benywaidd o Gynulliad Cenedlaethol Armenia. Cyfarfu'r ddirprwyaeth ag aelodau o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a Christine Chapman AC, Cadeirydd Grŵp Menywod a Democratiaeth y Cynulliad i drafod eu profiad o hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y Cynulliad.

### **Rhodri Morgan AC**

#### **Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**





Aelodau o'r **Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol** yn cynnal cyfarfod ffurfiol gydag Aelodau Cymreig o Senedd Ewrop yn adeilad Pwyllgor y Rhanbarthau. O'r chwith i'r dde: **Rhodri Morgan AC (Cadeirydd)**, **Jeff Cuthbert AC**, **Mike German AC** a **Rhodri Glyn Thomas AC**.



**Christine Chapman AC**, (y bumed o'r chwith) yn cyfarfod â dirprwyaeth o Aelodau Seneddol benywaidd o Armenia yn y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd.

## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Dyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Danuta Hübner, Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol Senedd Ewrop a'r pedwar Aelod Cymreig o Senedd Ewrop yn ystod ei gyfarfod ym Mrwsel ar Ddydd Gŵyl Dewi. Mae rhagor o sesiynau tystiolaeth wedi eu trefnu ar gyfer Ebrill a Mai, yn cynnwys y diweddaraf ar adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau ar ddyfodol y polisi hwn, a'r diweddaraf gan gynrychiolwyr o Bwyllgor Cymru Gyfan ar gyfer Monitro'r Rhaglenni.
- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** cafodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf gan Dr Gerhard Stahl, Ysgrifennydd Cyffredinol Pwyllgor y Rhanbarthau, ynghylch mandad y Pwyllgor ar gyfer 2010-2015, yn cynnwys effaith Cytuniad Lisbon ar statws y corff hwn.
- **Strategaeth Ewrop 2020:** cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ar 16 Mawrth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ar gynnig drafft Strategaeth Ewrop 2020 a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mawrth, ac i sôn am ymateb Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghoriad y Comisiwn.
- **Gweithgareddau'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru:** clywodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch gweithgareddau'r Comisiwn Ewropeaidd gan Andy Klom, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru.
- **Blwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol 2010:** Ar 16 Mawrth, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yper bellach fel rhan o'r ymchwiliad hwn gan Sefydliad Bevan. Mae Sefydliad Bevan wedi derbyn arian ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru i gefnogi amcanion y Flwyddyn Ewropeaidd, yn cynnwys cynnal cynhadledd,.

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Rhoi Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 ar waith yng Nghymru:** cynhaliodd y Pwyllgor nifer o sesiynau tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn ddiweddar. Ar 26 Chwefror cafwyd tystiolaeth gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol a'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal; ar 4 Mawrth cynhaliwyd cyfarfod yng Nghanolfan Soar, Penygraig, lle cafwyd cyfraniadau gan brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd, prosiect Adeiladu ar gyfer y Dyfodol a phrosiect Pontydd i Waith; ar 11 Mawrth cafwyd tystiolaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; ac ar 18 Mawrth cafwyd tystiolaeth gan yr Athro Dylan Jones Evans, Prifysgol Cymru, ac Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol De-orllewin Lloegr.
- **Creu Swyddi yn yr Economi Werdd:** mae'r ymchwiliad hwn yn parhau ac mae rhagor o sesiynau tystiolaeth wedi'u trefnu ar gyfer tymor yr haf.

## Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Llifogydd yng Nghymru:** cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ddiwedd mis Chwefror.

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Dyfodol yr Ucheldiroedd:** cyhoeddodd yr Is-bwyllgor ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ar 4 Ebrill.
- **Dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin:** bydd yr Is-bwyllgor yn cynnal ei sesiwn gyntaf o'r ymchwiliad hwn ar 28 Ebrill, pan fydd yn clywed tystiolaeth gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig.
- **Y diwydiannau gwin, cwrw a seidr:** cynhaliodd yr Is-bwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth y mis Mawrth gyda nifer o fragwyr a chynhyrchwyr gwin a seidr yng Nghymru. Hefyd, aeth y Pwyllgor ar ymweliad i Fragdy Otley yng Nghilfynydd ar 11 Mawrth, a Gwinllan Glyndŵr yn Llanbleddian ger y Bontfaen ar 25 Mawrth i gasglu tystiolaeth. Cynhelir y sesiwn derfynol gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 28 Ebrill.
- **Ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig:** bydd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hwn yn cael ei ddrafftio'n fuan gan yr Is-bwyllgor.

## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

- **Ymchwiliad i wneud y gorau o ddigwyddiadau chwaraeon:** clywodd y Pwyllgor Dystiolaeth gan Undeb Rygbi Cymru a Chlwb Criced Morgannwg ar 11 Mawrth, fel rhan o'r ymchwiliad hwn sy'n astudio gweithgareddau Llywodraeth Cymru, ei gyrff cyflenwi a sefydliadau cenedlaethol eraill mewn perthynas â digwyddiadau chwaraeon mawr, yn benodol, Cwpan Ryder a Gemau Olympaidd 2012 yn Llundain.

## **Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad**

- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Aeth Rhodri Glyn Thomas AC i sesiwn lawn o Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel ar 14-15 Ebrill.
- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Christine Chapman AC oedd y prif siaradwr mewn gwrandawriad a gynhaliwyd yn Senedd Ewrop ar 3 Mawrth, i drafod Strategaeth Ewrop 2020. Cymerodd Christine ran yn y cyfarfod hwn yn rhinwedd ei swydd fel rapporteur y Pwyllgor Rhanbarthau ar y strategaeth hon.

## **Ymwelwyr rhyngwladol ac ymwelwyr pwysig eraill â'r Senedd**

- Ar **24-25 Chwefror**, ymwelodd dirprwyaeth o Aelodau Seneddol benywaidd o Gynulliad Cenedlaethol Armenia, o dan arweinyddiaeth Ms Arevik Petrosyan AS, y Dirprwy Lefarydd, â'r Senedd er mwyn dysgu am brofiad Cymru o hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yma yn y Cynulliad. Cyfarfu'r menywod ag aelodau o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a Christine Chapman AC, Cadeirydd Grŵp Menywod a Democratiaeth y Cynulliad.
- Ar **25 Chwefror** ymwelodd Ei Ardechogrwydd Mr Oskaras Jusys, Llysgennad newydd Lithwania, â'r Cynulliad gan gyfarfod â'r Dirprwy Lywydd.
- Ar **9 Mawrth**, i nodi Diwrnod y Gymanwlad, cynhaliodd y Cynulliad ddadl â phobl ifanc o Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd, ar thema'r Gymanwlad eleni, sef "Gwyddoniaeth, Technoleg a Chymdeithas".
- Ar **9 Mawrth**, ymwelodd Dr Nicola Brewer, Llysgennad Prydain i Dde Affrica, â'r Cynulliad ar gyfer trafodaethau traws-bleidiol ag Aelodau'r Cynulliad.
- Ar **25 Mawrth**, ymwelodd Mr Adam McCarthy, Dirprwy Uchel Gomisiynydd Awstralia, â'r Cynulliad, gan gynnal cyfarfodydd â'r Llywydd ac Aelodau o Fwrdd Gweithredol Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

## **Lincs**

- [Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
- [Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)
- [Tudalennau'r Pwyllgorau](#)
- [Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

## **Am ragor o wybodaeth—**

### **Cysylltwch â:**

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa ([Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk](mailto:Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk))  
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)  
Tŷ Cymru  
6th Floor  
Rond Point Schuman 11  
1040 Bruxelles  
Belgium  
Ffôn: 0032 2 226 66 92  
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

### **Neu**

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cysylltiadau Allanol  
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897  
[archebu@cymru.gsi.gov.uk](mailto:archebu@cymru.gsi.gov.uk)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.